

## 2012 Rhif 481(Cy.79)

### TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

#### Gorchymyn Traffordd yr M4 (Y Gerbyttfordd tua'r Dwyrain wrth Gyffordd 24, Coldra, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012

*Gwnaed* 21 Chwefror 2012

*Yn dod i rym* 1 Mawrth 2012

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Draffordd Llundain – De Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y draffordd”), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Gan hynny, mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn hwn(2).

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Mawrth 2012 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Y Gerbyttfordd tua'r Dwyrain wrth Gyffordd 24, Coldra, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro 2012).

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

---

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 21:00 o'r gloch ar 1 Mawrth 2012 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr “y darn o'r draffordd” (“*the length of the motorway*”) yw'r darn o'r gerbyttfordd tua'r dwyrain o wyriad y ffordd ymadael tua'r dwyrain i fan uno'r ffordd ymuno'r tua'r dwyrain ar Draffordd yr M4 wrth Gyffordd 24, Coldra, yn Sir Fynwy.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn cyfeirio at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn penodedig o'r draffordd.

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog  
Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion  
Cymru.

Dyddiedig 21 Chwefror 2012

*G R Morgan*

**GARETH MORGAN**

Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith  
Llywodraeth Cymru